# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Wener, 30ain Mai 2014.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Siôn Ifans, D.G.Jones, J.P.Jones, S.G.Owen, W.N.Owen, T.J.Thomas, H.M.Williams, Mrs Ann Williams a Mrs Gwenfair Davies.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- H.D.Jones, D. Lewis, Mrs Gwen Lloyd, a'r Cyng. G.P.Fychan.

**112. Cofnodion cyfarfod 24ain Ebrill 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**113. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Mis Tachwedd
71.9 Nid oes amcan bris wedi ei dderbyn am wastadau'r llwybr at Eglwys Darowen. Y clerc i gysylltu efo Michael Byrne ac Einion Jones am amcan brisiau.
Mis Ebrill.
105.95.2 Eglurodd y clerc iddo dderbyn galwad ffôn oddi wrth Y Cynghorydd Gwilym Fychan ar ran cadeirydd dros dro Llywodraethwyr Ysgol Hyddgen i egluro pam nad oedd ein cynnig o gadw'r enw Ysgol Bro Ddyfi'n dderbyniol. Mae eglurhad pellach i'w gael yn y Blewyn Glas.
107. Derbyniwyd pedwar llythyr o ddiolch oddi wrth gynrychiolwyr y mynwentydd.
111.4. Darllenwyd ymateb o Post Office Ltd i'r gŵyn nad oeddent yn ymweld i wneud dim i ethol olynydd i Ann yn Swyddfa'r Post yng Nghwmlline. Maent yn gwneud eu gorau i geisio cael olynydd, a bydd Ann yn cael ei chydnabod gan y cwmni yn y dyfodol.
111.5 Atgoffa'r Cyngor Sir fod deiliaid Yr Anrheg yn dal ar y safle.
111.6; 111.7; 111.8. Darllenwyd ymateb y Cyngor Sir i'r problemau.

## Y Cyfarfod Blynyddol

**1** Ethol Swyddogion am 2014/2015
1.1 Cadeirydd. Mr Gareth Owen.
Cymerodd Gareth y gadair a diolchodd i William Owen am ei wasanaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
1.2 Is-gadeirydd Mrs Gwenfair Davies.
1.3 Clerc Mr Stephen Tudor
**2** Llofnodwyd y llyfr Derbyn Swydd gan y Gareth a Gwenfair.
**3.** Cynrychiolwyr ar wahanol fudiadau a chymdeithasau.

| | |
|---|---|
| 3.1 Ecodyfi | Mr Aled.Griffiths a Mrs Gwen Lloyd yn eilydd iddo. |
| 3.2 Heddlu Dyfed/Powys | Mr Bill Owen |
| 3.3 Panel Ysbyty Machynlleth | Mr Bill Owen |
| 3.4 Llywodraethwr Ysgol Glantwymyn | Mr Aled Griffiths |
| 3.5 Un Llais i Gymru | Mr Aled Griffiths a Mr Siôn Ifans yn eilydd iddo. |
| 3.6 Pwyllgor y Ganolfan, Glantwymyn. | Mr Gwyn Jones |
| 3.7 Partneriaeth Biosffer. | Mr Aled Griffiths |
| 3.8 SARPA | Mr Hugh Jones. |

**4.** Adroddiad Ariannol y Cyngor am 2013/14. Roedd y fantolen wedi ei dosbarthu i'r cynghorwyr efo'r cofnodion. Cyflwynwyd y cyfrifon a oedd wedi eu harchwilio gan Mr Arnold Shuter, i'r cyfarfod a derbyniwyd hwy fel yn gywir. Llofnodwyd y dogfennau perthnasol gan y cadeirydd a'r clerc.
4a. Aelodau i arwyddo sieciau. Hugh Jones, Ann Williams, Bill Owen a Stephen Tudor. 3 i arwyddo.
**5**. Cyflog y clerc am 2014/2015. Gadawodd y clerc yr ystafell a phasiwyd fod y gyflog yn codi i £3000 y flwyddyn. Diolchodd y clerc i'r cynghorwyr am eu haelioni.
**6.** Costau'r clerc am 2014/2015. Cytunwyd ar y canlynol am flwyddyn arall:- Ffotocopïo 10c yr un. Y clerc i brynu'r papur. Stampiau dosbarth cyntaf 62c a'r ail ddosbarth 53c. Y Cyngor yn prynu'r amlenni. 10c am bob galwad ffôn.
**7.** Cyflwynwyd presenoldeb y cynghorwyr am y flwyddyn 2013/14. Gareth Owen yn unig oedd wedi bod ymhob cyfarfod gyda William Owen wedi colli un cyfarfod a John Pughe Jones a Deryck Lewis wedi colli dau gyfarfod.
**8.** Trafodwyd tâl lle bedd a thâl i godi cerrig bedd yn y mynwentydd. Lle bedd i drigolion yr ardal £100 a £200 i rai oddi allan i'r ardal. Am godi carreg fedd £50.
Cyflwynwyd awgrym i'r aelodau, bod y sawl sydd angen prynu lle bedd yn y dyfodol yn talu'r tâl cyfredol fel blaendal, ac os bydd y tâl wedi codi pan fydd angen y lle bedd fod y teulu'n talu'r gwahaniaeth y pryd hwnnw. Pasiwyd gofyn barn cynghorau eraill cyn dod i benderfyniad.

**9.** Man cyfarfod - Y Ganolfan, Glantwymyn. Dyddiad y cyfarfodydd am y flwyddyn nesaf. Roedd rhai am newid o nos Wener, a chan fod amgylchiad o ddangos gwerthfawrogiad i'r Dr Morpeth yn y Ganolfan ymhen y mis, pasiwyd cyfarfod ar **y nos Iau olaf ym Mehefin**, a phenderfynu trefn y dyfodol yn y cyfarfod hwnnw wedi i'r clerc gael gwybodaeth pa nosweithiau sy'n gyfleus yn y Ganolfan.
**10.** Cytunwyd fod Aelodau'r Cyngor yn parhau fel Ymddiriedolwyr Cronfa'r Melinau Gwynt. Cadeirydd y Cyngor i fod yn gadeirydd y gronfa a'r clerc yn ysgrifennydd a thrysorydd.
**11.** Tynnwyd llun y cynghorwyr er mwyn eu rhoi ar y we.
**12.** Nid oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**Diwedd y Cyfarfod Blynyddol.**

**12. Cynllunio.**
**Var/2014/31.** Cais i ryddhau adran106 o gytundeb a wnaed yn1994 ar 2 Glanrafon, Abercegir. Gadael heb ateb.

**13. Eitemau i'w talu.** Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**14. Ceisiadau am arian.**
14.1 Talu am botel o win i'r archwiliwr mewnol, Mr Arnold Shuter. £26.40.
14.2 Trosglwyddo tri chais i Gronfa'r Melinau Gwynt.

**15. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
15.1 Cafwyd adroddiad Gwenfair o gyfarfod y Fforwm ym Machynlleth. Bydd Dr Morpeth yn ymddeol o'r feddygfa leol ac mae meddyg Cymraeg wedi eu hapwyntio i'w olynu i fod yn y feddygfa am ddeuddydd yr wythnos. Bydd Dr Shaw o'r feddygfa leol yn un o'r rhai fydd ar alwad *Shropdoc* o 7pm hyd hanner nos.

**16. Gohebiaeth.**
16.1 Darllenwyd rhannau o'r arolwg ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr. Nid oedd cefnogaeth i unrhyw gydnabyddiaeth.
16.2 Dewiswyd y cadeirydd i gynrychioli'r Cyngor yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Maldwyn 2015 yn Y Drenewydd ar Sadwrn 5$^{ed}$ Gorffennaf am 1.30 o'r gloch.
16.3 Dogfen Ymgynghori. Mynediad i wybodaeth cynghorau Tref a Chymuned. Faint o wybodaeth fydd ei angen ar y we.
16.4 Llythyr o gangen Sefydliad y Galon, Aberystwyth yn gofyn am gefnogaeth i gadw gwasanaeth yr arbenigwr Dr M$^{c}$Keogh ym Mronglais.
16.5 Sicrhad y bydd gwasanaeth trên bob awr o Aberystwyth i'r Amwythig o fis Mai 2015 ymlaen.
16.6 Mae angen i unrhyw un sydd yn cael trafferth efo band llydan yn lleol gysylltu efo Russell George A.C. ar news@russellgeorge.com Bydd ef a'r A.S. yn cyfarfod y prif weithredwr dros Gymru ym Mehefin.
16.7 Llythyr yn gofyn i'r cynghorwyr drafod unrhyw wendidau yn y dull mae'r cyngor yn cael ei redeg a'r ffordd mae'r cyfrifon yn cael eu cadw a'u cyflwyno i'r Cyngor.

**17. Unrhyw fater arall.**
17.1 Mae cau safle Potters ym Machynlleth dan ystyriaeth y Cyngor Sir er mwyn arbed arian. Dyma'r unig un sydd dan fygythiad yn y Sir. Pe bai hyn yn digwydd fe fydd yn golled i ardal eang a bydd cynnydd mewn tipio anghyfreithlon yn debygol. Llythyr o wrthwynebiad i'r Prif Weithredwr.
17.2 Nid yw busnesau yn medru gysylltu efo BT yn y Gymraeg.
17.3 Cwyn nad yw'r gwaith o "Jet Patching" ar ffordd Llanwrin yn llwyddiannus.
17.4 Mae Tom Thomas wedi cynrychioli'r ardal fel cynghorydd yn ddi-dor am hanner can mlynedd. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad a'i sylwadau doeth. Y clerc i holi eraill pryd yr etholwyd hwynt yn gynghorwyr.
17.5 Llythyron i longyfarch yr ysgolion lleol am eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd.
17.6 Coed angen eu torri ger Pont Line yng Nghwmlline, ac Atgoffa'r Cyngor Sir am y coed wrth Glandyfi (Grey House), Llanwrin.
17.7 Ffordd rhwng Talywern a Dolgadfan angen sylw brys.
17.8 William Owen i gael gair efo rhai sy'n gadael biniau sbwriel ar y bont ym mhentref Llanwrin, a pherchnogion y coed sy'n tyfu ger y bont.
17.9 Mae weiren sy'n cynnal polyn BT ger Mathafarn wedi torri ac yn beryglus.

Nid oedd mater arall

**Dalier Sylw.**
**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau 26$^{ain}$ Mehefin 2014.**